


TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

Single Parents Wellbeing
Llesiant Rhieni Sengl

# TAI DIGONOL A RHENTI TEG: MEWNWELEDIADAU GAN RENTWYR PREIFAT YNG NGHYMRU

pobl

AWST 2023
WWW.TPAS.CYMRU

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

NODDWYR LLAIS Y TENANT

# BRIFF – TAI DIGONOL A RHENTI TEG: MEWNWELEDIADAU GAN RENTWYR PREIFAT YNG NGHYMRU

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar ddata gan rentwyr sy'n byw yn y Sector Rhentu Preifat (PRS). Mae'n archwilio'r heriau, y gobeithion a'r dyheadau ar gyfer rhentwyr preifat ledled Cymru, gyda rhywfaint o ffocws yn benodol ar brofiadau rhieni sengl, trwy gydweithio â'r elusen Lles Rhieni Sengl. Cafodd yr adroddiad hwn ei roi ar waith yn dilyn lansio Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, 2023

Gan ddefnyddio dull cymysg, cawsom fewnwelediad gan 322 o rentwyr preifat ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd 10 ohonynt yn grŵp ffocws gyda Rhieni Sengl a oedd yn rhentu'n breifat.
Mae'r mewnwelediad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae digonolrwydd tai a rhenti teg yn ei olygu i'r rhai sy'n byw yn y SRhP.

## CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU

- Roedd rhentwyr 18-24 a 24-34 oed yn gwerthfawrogi fforddiadwyedd yn fwy na sicrwydd deiliadaeth, mewn cyferbyniad â'r rhai 55-64 oed a oedd yn ystyried bod sicrwydd deiliadaeth yn ffactor allweddol o ran digonolrwydd tai.

- Mae rhentwyr eisiau monitro a gorfodi landlordiaid yn llawer cryfach er mwyn sicrhau bod eu cartrefi o ansawdd da

- Roedd monitro asiantaethau gosod tai, a landlordiaid drwy asiantaeth arolygu, tebyg i Estyn, yn ofyniad hollbwysig i rentwyr. Nid oedd hunanreoleiddio yn cael ei ystyried yn ddigonol

- Deallwyd a derbyniwyd mesur fforddiadwyedd o 30% ar gyfer y rhai nad oeddent ar incwm isel a/neu rieni sengl

- Roedd cefnogaeth nodedig i reolaethau rhent, gyda rhewi rhenti dros dro yn sylweddol uwch nag eraill. Fodd bynnag, roedd codiadau rhent yn gysylltiedig â landlordiaid yn gwella effeithlonrwydd ynni eiddo a rheolaethau rhent lleol penodol mewn ardaloedd pwysau uchel hefyd yn ddymunol.

- Teimlai rhentwyr y dylai enillion cyfalaf ar lefel landlordiaid fod yn gysylltiedig â lefel y cyfrifoldeb. Dylai landlordiaid mwy orfod darparu saith egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer tai digonol

Demograffeg allweddol i'w nodi:
- Nododd 30% o'r holl ymatebwyr eu bod yn rhieni sengl
- Roedd y categori dan 34 yn cyfrif am 25% o ymatebwyr
- Mae 33% o'r holl ymatebwyr yn byw yng Nghaerdydd
- Nododd 3.2% o'r holl ymatebwyr eu bod yn anneuaidd
- Roedd 43% o'r ymatebwyr o ganlyniad i hysbysebion y talwyd amdanynt ar Instagram

Awst 2023
www.tpas.cymru